*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Gweithdrefnau Cod Gwisg y Dysgwr

Yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, rydym yn cydnabod bod gennym gorff dysgwr amrywiol, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym goleg lle mae pawb yn cael ei drin yn gyfartal a chyda pharch. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn gwerthfawrogi amrywiaeth ei staff a'i ddysgwyr a'i nod yw creu amgylchedd lle mae credoau personol, diwylliannol, crefyddol ac anghrefyddol neu athronyddol tebyg, oll yn cael eu parchu. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu mynegi eu hunaniaeth.

Yn yr un modd, mae'n allweddol bod safonau deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a safonau proffesiynol yn cael eu cynnal bob amser. Byddwn yn sicrhau diogelwch ein holl staff, ymwelwyr a dysgwyr wrth gefnogi a gwerthfawrogi credoau personol, diwylliannol, a chrefyddol ein cymunedau.

Ategir y gweithdrefnau hyn gan egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (ALNET).  Mae'r Coleg yn ystyriol o'i ddyletswydd i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac ymddygiad anghyfreithlon arall.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gael gwared ar anfanteision neu eu lleihau, cymryd camau i fodloni anghenion, ac annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.
- Sicrhau yr ymlynir wrth arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser.
- Mabwysiadu cysylltiadau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i'r holl ddysgwyr ar ein rhaglenni dysgu, ni waeth beth fo dull neu leoliad yr astudiaeth.

## Adnabod Staff a Dysgwyr

*Adnabod Staff, Dysgwyr ac Ymwelwyr*

- Am resymau diogelwch, mae angen gallu adnabod staff, dysgwyr ac ymwelwyr y coleg yn syth.  Mae hyn yn golygu y dylai staff diogelwch, derbynfa a staff a dysgwyr eraill allu adnabod person ar y campws, fel arfer drwy gymharu eu hwyneb â'r llun ar eu cerdyn adnabod coleg.

- Mae rheoliadau arholi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fod yn adnabyddadwy yn ystod arholiadau coleg.

- Bydd gan bob dysgwr ac aelod o staff fathodyn adnabod y mae'n rhaid ei arddangos drwy'r adeg yn y coleg.

- Rhaid i ymwelwyr arddangos ID ymwelwyr.

- Mae gan staff yr hawl i ofyn am gael gwirio hunaniaeth unigolion drwy gymharu eu llun ar eu cerdyn adnabod.  Os oes unrhyw un yn gwrthod, gellir gofyn iddynt adael.

- Mae'r coleg yn ymwybodol o'r angen i ystyried credoau crefyddol unigolyn. Rydym yn gwerthfawrogi bod gan bob aelod o staff, dysgwr ac ymwelydd anghenion unigol o ran dillad crefyddol a chaiff yr unigolrwydd hwn ei gydnabod. Mae gwisgo'r niqab/hijab a gorchuddion crefyddol eraill ar yr wyneb yn dderbyniol o amgylch y coleg.

*Canllawiau ar gyfer Ymrestru a Thynnu Lluniau ID y Coleg*

- Mae'r Coleg yn dilyn rheoliadau'r Swyddfa Gartref ar gyfer lluniau pasport. Rhaid i'r rhain fod:

  a. â'ch llygaid ar agor ac yn gwbl weladwy (heb sbectol haul a dim gwallt ar draws eich llygaid)
  b. yn rhydd rhag adlewyrchiad neu lewyrch ar eich sbectol
  c. ohonoch yn wynebu ymlaen
  d. gydag edrychiad niwtral gyda'ch ceg ar gau
  e. ohonoch ar eich pen eich hun
  f. o'r pen cyfan, heb ddim yn ei orchuddio (gan gynnwys hetiau, capiau), oni bai ei fod am resymau crefyddol neu feddygol
  g. heb unrhyw beth yn gorchuddio eich wyneb

- Mae'r ddarpariaeth ganlynol wedi'i gwneud ar gyfer dysgwyr sy'n gwisgo eitemau penodol o wisg grefyddol:

  a. Mae'n ofynnol i bobl sy'n gwisgo'r niqab (neu orchudd wyneb arall) ei dynnu wrth ymrestru pan fo llun yn cael ei dynnu ar gyfer bathodyn adnabod y Coleg.
  b. Bydd hyn yn digwydd mewn ystafell breifat gydag aelod benywaidd o staff.
  c. Ni fydd yn ofynnol i unrhyw fenyw ddangos hyn i unrhyw aelod gwrywaidd o'r Coleg.
  d. Os yw'r coleg yn dymuno gwirio pwy yw unrhyw un, bydd hyn yn cael ei wneud gan aelod benywaidd o staff mewn ystafell breifat.

*Canllawiau ar Ddefnydd y Coleg o Luniau Electronig*

- Cedwir llun yn electronig ac fe'i defnyddir fel rhan o'r system cofrestr electronig. Gall hyn arwain at arddangos y llun yn yr ystafell ddosbarth. Rydym yn cydnabod na fydd rhai myfyrwyr, am resymau crefyddol, am weld eu llun ar gael fel hyn.

- Gallwn dynnu delwedd o'r system hon ar ôl i'r cerdyn adnabod gael ei argraffu. Bydd yn parhau'n ofynnol i'r myfyriwr ddefnyddio ei gerdyn adnabod ar gyfer gwirio hunaniaeth a diogelwch yn unol â darpariaeth y weithdrefn cod gwisg.

- Gofynnir i ddysgwyr wrth ymrestru a ydynt yn dymuno i'w llun gael ei ddileu. Bydd y rhai sydd yn dymuno hynny'n cael y Ffurflen Cais i Ddileu Delwedd Electronig (gweler Atodiad 1); bydd hyn yn cael ei brosesu gan MIS.

- Os bydd dysgwr yn colli ei gerdyn adnabod a bod ei lun wedi'i ddileu, byddai llun arall yn cael ei dynnu. ID ffotograffig – byddai angen trwydded yrru neu basport.

- Caiff cynlluniau eistedd sy'n cynnwys lluniau eu harddangos mewn arholiadau. Bydd gofyn i ddysgwyr sydd â'u lluniau wedi'u dileu, brofi eu hunaniaeth mewn ystafell breifat gan staff o'r un rhyw.

## Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac yn yr Ystafell Ddosbarth

*Canllawiau o fewn yr Amgylchedd Gweithio*

- Mae'r Coleg yn ymwybodol o'r angen i ystyried credoau crefyddol unigolyn. Gwerthfawrogwn fod gan bobl anghenion unigol o ran dillad crefyddol. Mae gwisgo twrban, yr yarmulke, y niqab (fêl) a gorchuddion crefyddol eraill ar yr wyneb a'r pen yn dderbyniol o amgylch y coleg ac mewn ystafelloedd dosbarth. ***Mae'n bwysig cofio mai unigolyn yw pob dysgwr a bod ganddo ei systemau personol a chred ei hun***.

- Mae'r Coleg yn ymwybodol y gallai credoau crefyddol gyflwyno her mewn meysydd cwricwlwm penodol, yn enwedig y salonau gwallt a harddwch a'r gweithdai peirianneg.

  Yn y gweithdai neu'r salonau cynhelir trafodaethau gyda'r unigolyn er mwyn gallu ystyried addasiadau i gefnogi dysgu wrth gynnal iechyd a diogelwch, gofynion asesu a rheoliadau'r corff dyfarnu. Dylai'r tiwtor drafod pa addasiadau sy'n bosibl gyda'r myfyriwr yn y cyfweliad a'r ymrestriad; dylai'r trafodaethau ystyried gofynion iechyd a diogelwch a gofynion cyrff dyfarnu bob amser. Mae ystyriaethau Iechyd a Diogelwch bob amser yn hollbwysig. Bydd staff a dysgwyr yn cydymffurfio bob amser ag asesiadau risg unigol ym mhob gweithdy a salon.

  Dylid dilyn y canllawiau isod yn ystod y trafodaethau hyn.

<u>Y Salonau</u>

Mae rheoliadau cyrff dyfarnu ac asesiadau yn mynnu bod dysgwyr yn ymarfer triniaethau ar amrywiaeth o unigolion. Mae'n debygol y bydd yn ofynnol i dynnu penwisgoedd etc ar gyfer hyn gan na ellir cael asesiadau mewn Gwallt a Harddwch gyda gorchuddion gwallt ac wyneb.

Mewn rhai meysydd fel Gwallt, mae gofyn torri gwallt gwrywaidd a benywaidd hefyd. Gallai hyn achosi anawsterau i bobl sydd â rhai credoau crefyddol.

Ystyriwch y canllawiau isod:

- A ellir defnyddio sgriniau/llenni i sicrhau nad yw rhywun yn cael ei weld gan aelod o'r rhyw arall? A ellir cynnal iechyd a diogelwch yma pan fydd gweithgareddau ymarferol yn cael eu cynnal? A fyddai gan y tiwtor/asesydd gysylltiad â'r holl ddysgwyr?
- A ellir rhoi hysbysiad ar y drws i atal aelodau gwrywaidd o staff rhag dod i mewn?
- A all dysgwyr ddod ag aelodau gwrywaidd o'u teulu i mewn i sicrhau bod cleientiaid gwrywaidd yn cael eu gweini?
- Os oes sawl grŵp, a fyddai modd i un grŵp cwbl fenywaidd gael ei reoli?

Y Gweithdai

Mae gofyniad sylfaenol i wisgo esgidiau amddiffynnol ar ffurf esgidiau/ bŵts blaen caled ac oferôls amddiffynnol neu ddillad gwaith ar gyfer pob gweithgaredd gweithdy. Efallai y bydd yn ofynnol defnyddio cyfarpar penodol fel hetiau caled, offer anadlol, menig, harneisiau, plygiau/amddiffynwyr clust ar gyfer gweithgareddau/ardaloedd penodol.

Mae Sikhiaid sy'n gwisgo twrbanau wedi'u heithrio o'r gofyniad i wisgo hetiau caled ar safleoedd adeiladu yn rhinwedd *Deddf Cyflogaeth 1989*.

Y Gegin

Mae gan y Coleg bolisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gweithio mewn ceginau a/neu yn ymwneud â pharatoi bwyd wisgo gorchuddion pen priodol. Mae polisi'r Coleg ynghylch cyfarpar diogelwch personol mewn ceginau yn ei gwneud yn ofynnol i staff a myfyrwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau coginio wisgo topiau a throwsus ymwrthedd gwres ac esgidiau sy'n atal llithro. Dylai gwallt gael ei orchuddio gan het neu rwyd wallt yn ddibynnol ar ofynion yr unigolyn.

Rhaid defnyddio menig amddiffynnol priodol wrth ymgymryd â gweithgareddau glanhau yn ardaloedd y gegin.

## Hyrwyddo Cynwysoldeb

Mae'r Coleg yn cydnabod y bydd angen hyfforddiant i gefnogi ei staff i wneud y gweithdrefnau hyn yn ymarferol yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws y coleg. Byddwn yn cyflawni:

- hyfforddiant codi ymwybyddiaeth gyffredinol yn y gweithdrefnau ar gyfer yr holl staff
- hyfforddiant manwl ar gyfer staff derbyniadau a diogelwch

- hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb mewn perthynas â chrefydd a chred a thrawsrywedd i'r holl staff
- hyfforddiant ar gyfer staff darlithio ar strategaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cefnogi ethos y weithdrefn hon o fewn yr ystafell ddosbarth.

- Bydd y Coleg yn sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybod am y polisi cod gwisg a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm. Byddwn hefyd yn cynnwys dysgwyr mewn sesiynau ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn:

  - sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau yn ystod y broses dderbyniadau ac ymrestru
  - sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'n disgwyliadau o ran ymddygiad yn ystod y cyfnod cynefino
  - sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at raglen lawn o ddeunyddiau Tiwtorial ar agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
  - cynnig cyfle i ddysgwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau amrywiaeth yn y coleg a'r tu allan i'r coleg drwy roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau allanol.

- Byddwn yn datblygu deunyddiau cyhoeddusrwydd ar draws y coleg sy'n pwysleisio cynwysoldeb – posteri, taflenni gwybodaeth am ddiwylliannau, crefyddau a chredoau, anableddau ac anawsterau dysgu. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos o fewn y Canolfannau Llwyddo a'r Gwasanaethau Myfyrwyr; bydd hefyd ar gael ar Moodle a phorth y dysgwyr.

- Byddwn yn datblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol a grwpiau diddordeb arbennig i gefnogi ein dysgwyr a'n staff ac i sicrhau bod y Gweithdrefnau'n briodol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

*Canllawiau ar gyfer Delio â Dillad Tramgwyddus*

Os gwelwch rywun yn gwisgo dillad tramgwyddus, mae'n bwysig eich bod yn adrodd arno ar unwaith. Os nad ydym yn gwybod amdano, ni allwn weithio i wneud iawn am y niwed a achosir na herio'r ymddygiad. Ystyrir dillad tramgwyddus fel rhai sydd â sloganau neu ddelweddau sy'n pechu rhywun neu'n torri egwyddorion y ddeddfwriaeth gydraddoldeb.

<u>Dysgwyr</u>
Gallwch ei adrodd mewn nifer o ffyrdd, dylech:

- ddweud wrth eich darlithydd neu diwtor cwrs NEU
- ddweud wrth y Gwasanaethau Myfyrwyr

<u>Staff</u>
Mae hyn yn bryder ymddygiad o fewn y Polisi Ymddygiad (neu'n bryder difrifol, yn dibynnu ar natur y digwyddiad). Dylech:

- ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau gweithredu adferol di-oed e.e. a oes modd i'r dysgwr droi'r eitem o ddillad tu wyneb allan i guddio'r slogan tramgwyddus?
- dilyn y Polisi a Gweithdrefnau Ymddygiad
- Os yw'n fater difrifol, dylech hysbysu'r rheolwr dyletswydd ar unwaith.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: Medi 2024** | **Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Cymeradwywyd gan: Bwrdd Safonau Ansawdd** | **Arweinydd Gweithredol: Is-Bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr** |
| **Dyddiad adolygu: Medi 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy** |

# Atodiad 1
# Ffurflen Gais i Ddileu Delwedd Electronig

Llenwch y ffurflen hon os hoffech ofyn i ddileu eich llun electronig o system EBS y Coleg.

| **Enw'r Myfyriwr:** | | **SIN:** | |
|---|---|---|---|
| **Cwrs:** | | | |
| **Tiwtor Personol:** | | | |

Hoffwn i'm llun gael ei ddileu o system EBS y Coleg.

Esboniwch pam eich bod yn awyddus i'ch llun gael ei ddileu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rwy'n cytuno y bydd angen i mi ddefnyddio fy ngherdyn adnabod Coleg (neu ID ffurfiol arall) at ddibenion diogelwch ac adnabod yn ystod fy amser yn y Coleg.<br><br>Rwy'n cydnabod, pe bai'r Coleg yn dymuno gwirio fy hunaniaeth, y gwneir hyn gan ddefnyddio'r canllawiau y cytunwyd arnynt yn y Polisi Cod Gwisg. | | | |
| **Llofnodwyd:** | **Dyddiad:** | | |

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Gwasanaethau Myfyrwyr ar unrhyw gampws. Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn ei dychwelyd i MIS.